Cyw

# Anifeiliaid Anwes

Anifeiliaid anwes,
Rhai â ffwr a rhai â phlu,
Rhai yn fach a rhai yn fawr,
Yn rhan o'n teulu ni.

Dwi'n hoffi mynd am dro a dwi'n siglo fy nghwt,
Dwi'n fflwfflyd ac annwyl ac yn cysgu mewn cwt.
"Wff wff!" yw fy nghri,
Ond pwy ydw i?
Ai ci bach wyt ti? X2
Ie, ci bach ydw i,
A dwi'n ffrind i ti.

Dwi'n hoffi canu cân wrth i mi hedfan fry,
Dwi'n fychan a thwt ac yn bluog wir i ti,
"Twît twît!" yw fy nghri,
Ond pwy ydw i?
Ai deryn wyt ti? X2
Ie, deryn ydw i,
A dwi'n ffrind i ti.

Dwi'n hoffi dringo coed a 'molchi'n lân bob dydd,
Dwi'n feddal a del ac yn yfed llaeth o hyd.
"Miaw! Miaw"" yw fy nghri,
Ond pwy ydw i?
Ai cath fach wyt ti? X2
Ie, cath fach ydw i,
A dwi'n ffrind i ti.

Dwi'n hoffi llusgo'n slei, mae 'nghorff i'n eitha' hir,
Mae 'nhafod mewn a mas, un lithrig ydw i
"Sss! Sss!" yw fy nghri,
Ond pwy ydw i?
Ai neidr wyt ti? X2
Ie, neidr ydw i,
A dwi'n ffrind i ti.

© 2021 S4C